



William Graham AC  
Cadeiryddy Pwyllgor Menter a Busnes

William.graham@wales.gov.uk

23 Ionawr 2015

Annwyl William,

Yn dilyn y drafodaeth adeiladol ar y 3ydd Rhagfyr, ymrwymais i adolygu elfennau o'ch ymateb i'r ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â masnachu a buddsoddi mewnol.

Roedd un o'r argymhellion yn galw am fwy o dryloywder o ran ein hystadegau buddsoddi mewnol ac i gynnwys buddsoddi cyfalaf fel mesur o gofnodi twf. Gofynnodd nifer o dystion i'r ymchwiliad i Lywodraeth Cymru dracio lefel y buddsoddi tramor yng Nghymru drwy gofnodi swm y buddsoddi cyfalaf, yn hytrach na'r swyddi neu'r prosiectau, gan fod hyn yn cael ei ystyried yn ddull mwy cywir o fesur buddsoddiad.

Yn dilyn y drafodaeth, byddwn nawr yn cyhoeddi ffigwr buddsoddi cyfalaf cyfunol ar gyfer y flwyddyn, yn ôl argymhellion y Pwyllgor. Fodd bynnag, oherwydd cyfrinachedd masnachol, ni allwn gyhoeddi manylion llawn y buddsoddiadau, heb gydsyniad ymlaen llaw gan y cwmnïau, ac, mewn nifer o achosion, nid yw'r cwmni'n datgelu eu buddsoddiad cyfalaf.

Ble y byddwn yn gweld yr wybodaeth, er enghraifft, pan fyddwn wedi darparu cymorth ariannol, byddwn yn cyhoeddi ffigwr buddsoddi cyfalaf cyfunol, ond mae'n rhaid nodi nad hwn o angenrheidrwydd fydd y ffigwr buddsoddi cyfalaf llawn ar gyfer pob prosiect buddsoddi uniongyrchol tramor ar gyfer y flwyddyn gyfan, ac ni ellir ei ddefnyddio fel mesur cywir ar gyfer olrhain buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru gan gwmnïau tramor.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi targedau a mesur Buddsoddiadau Uniongyrchol o Dramor yn seiliedig ar nifer y prosiectau a'r swyddi sy'n cael eu creu, gan bod y manylion hyn ar gael inni, ac ar hyn o bryd, dyma'r ffordd fwyaf cywir o olrhain buddsoddiad blynyddol. Mae'r dull hwn yn caniatáu inni hefyd feincnodi ein perfformiad yn erbyn gweddill y DU gan eu bod yn defnyddio yr un meini prawf.

Roeddwn wedi ymrwymo hefyd i edrych ar ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n allforio, fel a nodwyd yn argymhelliad saith. Bwriad ein cymorth yw helpu busnesau ar bob cam o'r broses o allforio. Byddwn yn lansio 'Parth Allforio' yn fuan, fydd yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am y cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n allforio, a byddaf yn hysbysu Aelodau'r Cynulliad o hyn pan fydd y wefan newydd ar gael.

Cafodd nifer o'r argymhellion eu derbyn yn rhannol, ac rwy'n eich sicrhau y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i edrych ar y cyfleoedd yn yr argymhellion hyn. Er enghraifft, byddaf yn parhau i asesu eich dull o fasnachu a buddsoddi, ac mae adolygiad wedi'i gomisiynu i edrych ar y rhaglen fasnach a'i gweithgareddau, sy'n cael ei hariannu gan yr UE.

Edwina Hart